

Tystiolaethu a chyffesu ffydd

Cynhadledd Ysgrifenyddion Cyffredinol CWM yn Rotorua Seland Newydd – Medi 2019

Bob dwy flynedd y mae CWM (Council for World Mission) yn galw ar holl ysgrifenyddion ei 32 o Eglwysi i ddod at ei gilydd i rannu mewn cymdeithas, i agor y Gair gyda'i gilydd, ac i gyd-ddyheu a llunio agenda ar gyfer y Cyngor.

Dwy flynedd yn ôl fe fu Undeb yr Annibynwyr a ninnau yn brysur yn paratoi ac yn estyn croeso i'r holl Ysgrifenyddion.

Ein cyfle ni eleni oedd cael ein croesawu gan Eglwys Bresbyteraidd Seland Newydd a'r Eglwysi Annibynnol yno.

Ar y Dydd Sadwrn estynnwyd croeso gwahanol iawn i ni yn nhref glan môr Ohope yn ynys y Gogledd gan Eglwys o draddodiad Maori. Wrth gyrraedd yr Eglwys gymunedol hardd hon a adeiladwyd o strwythur pren wedi ei naddu gyda cherfluniau Maori Cristnogol, o'r groes, o ddelweddau Beiblaidd, ac o symbolau Cristnogol, yn arbennig pysgod. Llafarganodd dynion y gymuned i'n croesawu, profiad dipyn llai ymosodol na wynebu'r crysau duon ar gae rygbi yn Japan!

Cawsom gyfle i addoli, gwranddo hanes eu hetifeddiaeth, cyd-addoli a rhannu pryd bwyd gyda'n gilydd.

Ar y Sul buom yn cyd-addoli mewn Eglwys Bresbyteraidd drefol yn Rotorua. Cefais fy rhyfeddu ar eu mynegiant carismataidd a'r modd y maent yn llwyddo i estyn cariad a gobaith i'r rhai sydd ar ymylon y gymdeithas.

Yn ystod yr wythnos cawsom gyfle i gael y golwg gyntaf ar ddrafft Strategaeth CWM ar gyfer 2020-2029 yn dwyn y teitl



Llun: pixabay.com Suzanna Sloti

“Medd yr ARGLWYDD. ‘Fel clai yn llaw'r crochenydd, felly yr ydych chiwi yn fy llaw i, tŷ Israel. Ar unrhyw funud gallaf benderfynu diwreiddio a thynnu i lawr... Ar unrhyw funud gallaf benderfynu adeiladu a phlannu cenedl neu deyrnas.’” Jeremeia 18

Confessing Witness (Missio Confessionis) to Life Flourishing Communities.

Paratowyd y papur cychwynnol hwn i ni gan grŵp cynllunio dan arweiniad yr Athro Park Seong-Won, gweinidog ordeiniedig o Korea. Cynorthwywyd ef gan y Parch Dr Kuzipa Nalwamba o'r Eglwys Unedig yn Zambia. Fe fydd y drafft yn cael ei gyflwyno yng Nghymanfa Gyffredinol CWM sy'n cael ei chynnal yn Johannesburg, De Affrica ym mis Mehefin flwyddyn nesaf. (Mae copi digidol ohoni i'w chael i bwy bynnag sy'n dymuno ei darllen o'r swyddfa hefyd).

Prif nodau ei chynnwys yw;

1. Ein dehongli proffwydol o arwyddion ein hamser.
2. Sylfaen ddiwinyddol o'n galwad broffwydol.
3. Ein mandad cenhadol ar sut yr ydym yn tystio ac yn ymateb mewn ffydd.
4. Sut y mae CWM yn mynd ati i drefnu materion llywodraethu, lleoliadau, cyllid a chyfathrebu.

Agorwyd y Gair i ni bob bore gan Lywydd yr Eglwys Bresbyteraidd Parch Fakaofa.

Roeddem yn edrych ar Jeremeia 18:1-11 gan edrych yn benodol ar sut ydym yn rhannu'r Efengyl gyda gwahanol genhedloedd yn y byd. Yn dilyn yr astudiaeth bob bore roeddem yn clywed am sefyllfa arweinyddiaeth pump o Ysgrifenyddion Cyffredinol a hynny o Loegr, Tahiti, Zambia, Jamaica ac India.

Cafwyd anerchiadau gan Colin Cowan, Ysgrifennydd Cyffredinol CWM a gan yr Athro Dr Jennifer Louise Te Paa Daniel (Te Rarawa), y fenyw leyg gynhenid gyntaf i gyfarwyddo Coleg Anglicanaidd yn Seland Newydd. (Mae copïau o anerchiadau'r ddau ar gael gan y swyddfa pe dymunech ei derbyn yn ddigidol)

Ond, “Teg edrych tuag adref”, chwe diwrnod yn unig wedi hedfan 12,000 o filltiroedd i wlad oedd yn edrych mor anghredadwy o debyg i Gymru, roeddwn yn gadael arwyddion cyntaf y Gwanwyn, yn eirlysiâu ac ŵyn bach am Gymru lle'r oedd y dydd yn byrhau ac i gwymp y dail.

Nan Wyn Powell-Davies

